

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	16 / 03 / 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro]
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl	Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r angen i recriwtio lleygwyr i eistedd ar y Pwyllgor yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gwneud newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gofyn am fwy o aelodau lleyg.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau y bydd yn penodi panel o'i aelodaeth i greu rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr ar gyfer rôl lleygwyr ar y Pwyllgor.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Testun yma Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (a116) yn ei gwneud yn ofynnol i draean o aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cynnwys personau lleyg. Diffinnir 'personau lleyg' yn y Ddeddf (a117) fel person sydd:

(a) nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol,

(b) nad yw ar unrhyw adeg yn y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n diweddu â dyddiad penodi'r person hwnnw wedi bod yn aelod neu'n swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac,

(c) nad yw'n briod neu'n bartner sifil i aelod neu'n swyddog i unrhyw awdurdod lleol;.

4.2. Yn y cyd-destun hwn mae 'aelod' yn golygu Cyngorydd (a171)

4.3. Mae aelodaeth bresennol y Pwyllgor yn cynnwys chwe aelod etholedig, sy'n wleidyddol gytbwys, ac un aelod lleyg.

4.4. Er mwyn cynnal y nifer o chwe chynghorydd ar y Pwyllgor bydd angen cael tri pherson lleyg.

4.5. Mae'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn ymgyrch recriwtio a gydlynwyd yn genedlaethol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac wedi derbyn nifer o geisiadau y bydd angen eu hystyried a bydd angen cynnal cyfweiliadau.

4.6. Ym mis Mai 2012 dirprwyodd y Cyngor y dasg o gyfweld ymgeiswyr am swydd aelod lleyg i'r Pwyllgor hwn er mwyn gallu gwneud argymhelliad ynghylch penodi aelod lleyg i'r Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor wneud y penodiadau terfynol.

4.7. Felly, gofynnir i'r Pwyllgor ddarparu panel o aelodau o'i fewn i allu cynnal yr asesiad angenrheidiol a chyfweld ymgeiswyr.

4.8. Atgoffir y Pwyllgor, yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022, y bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn berson lleyg.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd gan y lleygwyr a benodir hawl i gael lwfansau cyfradd dydd am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd. Pennir y cyfraddau hyn gan Banel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol a byddant yn 2022/2023 fel a ganlyn:

- Cadeirydd lleyg £268 y diwrnod a £134 am hanner diwrnod
- Aelod lleyg £210 y diwrnod a £105 am hanner diwrnod

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau gyda'r Pwyllgorau Craffu, fodd bynnag, bu nifer o weithdai gydag aelodau yn ystod y broses o ddatblygu'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y costau'n cael eu cynnal o fewn yr adnoddau presennol. Bydd unrhyw ddiffyg yn fach a chaiff ei ariannu drwy ddyrannu elfen o'r gyllideb wrth gefn yn ystod y flwyddyn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg, os na chaiff y lleygwyr eu penodi, na fydd y Pwyllgor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a116 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021